Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Adroddiad gan y Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Ystyried y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant

Cefndir

Penderfynodd y Cyfarfod Llawn y byddai'r Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau yn ystyried y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant yn dilyn y drafodaeth ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth y DU ar 28 Tachwedd 2006.

Ystyriodd y Pwyllgor y Mesur ar 1 Chwefror 2006. Mae cofnod gair-am-air o'r cyfarfod ar gael a gellir ei weld ar wefan y Pwyllgor[1].

Y Mesur

Hynt y Mesur drwy'r Senedd

Cafodd y Mesur Addysg Bellach a Hyfforddiant ei gyhoeddi a derbyniodd ei ddarlleniad cyntaf yn Nhy'r Arglwyddi ar 20 Tachwedd 2006[2]. Mae ei gamau dilynol fel a ganlyn:

- 13/12/2006 Ty'r Arglwyddi: Ail Ddarlleniad[3]
- 13/12/2006 Y Pwyllgor ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio, Trydydd Adroddiad[4]
- 23/01/2007 Uwch-Bwyllgor yr Arglwyddi, Diwrnod Cyntaf[5]
- 25/01/2007 Uwch-Bwyllgor yr Arglwyddi, Ail Ddiwrnod[6],

Ar 1 Chwefror 2007, roedd y Mesur yn aros am ei gyfnod adrodd yn Nhy'r Arglwyddi, na ellir ei gynnal cyn 19 Chwefror 2007 oherwydd confensiynau Seneddol.

---

[1] http://www.cymru.gov.uk/cms/2/CommitteeMeeting/N00000000000000000000000000000078/e59a18a3d0551cf8c47adc0bda1bcfaf.htm

[2] Hansard Ty'r Arglwyddi, 20 Tachwedd 2006
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldhansrd/index/061120.html

[3] Hansard Ty'r Arglwyddi, 13 Rhagfyr 2006
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldhansrd/index/061213.html

[4] Pwyllgor ar Bwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Ty'r Arglwyddi, Trydydd Adroddiad, 14 Rhagfyr 2007,
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld/lddelreg.htm#reports

[5] Hansard Ty'r Arglwyddi, 23 Ionawr 2007
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldhansrd/index/070123.html

[6] Hansard Ty'r Arglwyddi, 25 Ionawr 2007
http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldhansrd/index/070125.html

Prif Ddarpariaethau

Mae'r Mesur yn gweithredu'r cynigion ym Mhapur Gwyn yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) *"Further Education: Raising Skills, Improving Life Chances"* a gyhoeddwyd ar 27 Mawrth 2006[7].

Mae'r Mesur yn gwneud darpariaethau:

- ynghylch y Cyngor Dysgu a Sgiliau ar gyfer Lloegr
- ynghylch sefydliadau o fewn y sector addysg bellach
- o ran ardollau hyfforddiant diwydiannol
- ynghylch ffurfio a buddsoddi mewn cwmnïau a sefydliadau corfforedig elusennol gan gorfforaethau addysg uwch
- i alluogi'r broses o wneud Mesurau'r Cynulliad ym maes addysg a hyfforddiant
- ac ar gyfer dibenion cysylltiedig.

Ceir dolenni cyswllt i'r Mesur[8] a'r nodiadau esboniadol[9] isod.

Ystyriaeth y Pwyllgor

Darparwyd papur cynhwysfawr ar y Mesur i Aelodau (ELLS(2) 02-07-p2)[10] gan Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Darparwyd hefyd gopïau o'r Mesur a'r nodiadau esboniadol iddynt yn ogystal â phapur gan Wasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn nodi prif ddarpariaethau'r Mesur. Aeth Mr Nick Ainger AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, i'r cyfarfod hefyd i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth ystyried y Mesur.

Yn ystod y drafodaeth, codwyd y materion a ganlyn:

- **Cymal 10 – Darparu Gwasanaethau**
  Mae cymal 10 yn caniatáu i'r Cyngor Dysgu a Sgiliau yn Lloegr gynnig gwasanaethau atodol, fel darparu adeiladau a chyfleusterau neu reoli'r cyfleusterau hyn, neu gaffael nwyddau a gwasanaethau, i gyrff addysgu neu hyfforddi yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ar yr amod bod caniatâd y Gweinidog perthnasol ganddynt i wneud hynny.

  Esboniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mai pwer galluogi yn unig oedd hwn na ellir ei ddefnyddio ond â chaniatâd

---

[7] Papur Gwyn yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) *"Further Education: Raising Skills, Improving Life Chances"* Mawrth 2006, http://www.dfes.gov.uk/furthereducation/index.cfm?fuseaction=content.view&CategoryID=21&ContentID=25

[8] http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldbills/006/07006.i-ii.html

[9] http://www.publications.parliament.uk/pa/ld200607/ldbills/006/en/07006x--.htm

[10] http://www.cymru.gov.uk/cms/2/EducationLifelongLearningAndSkillsCommittee/AgendasPapersTranscripts/5b0aa67f5cf85e3fcef24608a65cdc5a.html

Gweinidogion Cymru. Bydd gan Weinidogion Cymru'r pwer i ddatblygu strwythurau penodol ar gyfer Cymru. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd achosion yn codi lle y bydd yn ddoeth i'r ddwy weinyddiaeth drefnu gwasanaethau ar y cyd.

- **Cymal 11 – Cymorth o ran cyflogaeth a hyfforddiant.**

  Roedd cymal 11, mewn perthynas â gweinyddu Benthyciadau Datblygu Gyrfa, yn codi'r un mater â chymal 10. Hynny yw, y graddau y bydd Gweinidogion Cymru'n rhydd i ddatblygu trefniadau i Gymru'n unig neu'n cael eu hymrwymo i drefniadau ar y cyd â Lloegr. Cadarnhaodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mai pwer galluogi oedd hwn, fel yng nghymal 10, y gellir ei ddefnyddio â chaniatâd Gweinidogion Cymru yn unig.

- **Cymal 18 – Ymyrraeth: Cymru**

  <u>Cefndir y Polisi</u>
  Mae Cymal 26 (Pwerau i Wneud Mesurau i'r Cynulliad Cenedlaethol) yn darparu pwerau eang i'r Cynulliad mewn llawer o'r meysydd y mae'r Mesur yn ymdrin â hwy. Fodd bynnag, mae cymal 18 yn rhoi pwerau yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru i ymyrryd mewn achosion lle mae sefydliadau yn tangyflawni, yn hytrach na bod y Cynulliad yn penderfynu ar y pwerau hyn drwy Fesurau'r Cynulliad.

  Esboniodd Mr Ainger y gall y Cynulliad benderfynu drwy Fesurau sut y bydd Gweinidogion Cymru yn gweithredu'r pwerau hyn. Esboniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau fod angen cymal ar wahân i wneud darpariaeth o ran Cymru gan fod cymal 17 (Ymyrraeth: Lloegr) yn cymryd y pwer i ymyrryd oddi wrth Weinidogion yn Lloegr a'i roi i'r Cyngor Dysgu a Sgiliau.

  <u>Effaith ar Gyfraith Cyflogaeth</u>
  Mynegodd Fforwm, y sefydliad sy'n cynrychioli colegau a sefydliadau addysg bellach yng Nghymru, bryderon i Aelodau'r Pwyllgor am effaith defnyddio'r cymal ar gyfraith cyflogaeth. Yn ôl Fforwm, nid yw cyfiawnder naturiol wedi'i gyflawni os yw Gweinidog yn diswyddo prif swyddog ar fyrder am ba reswm bynnag.

  Sicrhaodd Mr Ainger nad yw'r Mesur yn gallu disodli cyfraith cyflogaeth gyfredol. Fodd bynnag, mae angen mwy o eglurder o ran prosesau apêl yng Nghymru. Yn Lloegr, gan mai'r Cyngor Dysgu a Sgiliau fyddai'n arfer y pwer cychwynnol, bydd proses apêl i'r Ysgrifennydd Gwladol yn bosibl. Fodd bynnag, yng Nghymru y Gweinidogion fydd yn arfer y pwer yn uniongyrchol.

  Esboniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau ei bod am sicrhau bod pwerau ymyrryd priodol yn bodoli sy'n caniatáu'r dulliau apêl

priodol. Ei gobaith oedd y byddai modd dod o hyd i ateb addas pan fyddai'r Mesur yn cael ei ystyried yn ystod y cyfnod adrodd. Ymrwymodd i roi gwybod i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau.

- **Cymal 19 – Y Pwer i Ddyfarnu Graddau Sylfaen**

  Cefndir y Polisi
  Mae Cymal 19 yn darparu opsiwn i'r Cyfrin Gyngor roi'r pwer i sefydliadau addysg bellach yn Lloegr i ddyfarnu graddau sylfaen. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn ymestyn i Gymru. Gofynnwyd am eglurhad o'r rhesymau dros hyn.

  Esboniodd Mr Ainger fod Llywodraeth y Cynulliad wedi penderfynu peidio â chymryd yr opsiwn hwn oherwydd y cysylltiadau agos sydd eisoes yn bodoli rhwng sefydliadau addysg uwch a cholegau addysg bellach yng Nghymru. Wrth ymhelaethu ar hyn, esboniodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y gellir rhoi trefniadau ar waith o ran dyfarnu graddau sylfaen gan gyflogwyr. Fodd bynnag, roedd graddau eisoes yn cael eu monitro drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a'r Asiantaeth Sicrhau Ansawdd. Yng nghyd-destun Cymru ystyriwyd ei bod yn well peidio â chael trefniadau sy'n cystadlu yn erbyn eu gilydd neu sy'n dyblygu.

  Gallu'r Cynulliad i ddiwygio drwy Fesur
  Mater arall a godwyd o ran y cymal hwn oedd a fydd pwerau'r mesur a nodwyd yng nghymal 26 yn galluogi'r Cynulliad i gyflwyno mesurau a fydd yn galluogi sefydliadau addysg bellach i ddyfarnu graddau sylfaen os bydd awydd i wneud hynny yn y dyfodol.

  Awgrymodd y farn gyfreithiol gychwynnol a roddwyd yn y cyfarfod y bydd pwerau'r mesur (ac yn enwedig Mater 5.2) yn galluogi'r Cynulliad i wneud darpariaeth o'r fath. Fodd bynnag, roedd y cyngor ysgrifenedig[11] gan y Gweinidog a ddarparwyd ar ôl y cyfarfod yn awgrymu nad yw cymal 26 yn caniatáu i'r Cynulliad gyflwyno swyddogaethau i'r Cyfrin Gyngor.

Ni chynigiodd y Pwyllgor unrhyw ddiwygiadau i'r Mesur.



Peter Black AC **Chwefror 2007**
Cadeirydd y Pwyllgor

[11] Llythyr ar 5 Chwefror gan y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau. Wedi'i ychwanegu fel atodiad i'r adroddiad hwn.